# UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG
# SWYDD DDISGRIFIAD: SWYDDOG ELUSEN AC EIDDO

**Cytundeb:** 22.5 awr / wythnos / 52 wythnos y flwyddyn

**Lleoliad Gwaith:** Swyddfa Tŷ John Penri ar o leiaf un diwrnod yr wythnos, adref ac ar ymweliadau gwaith â chyfundebau ac eglwysi.

**Yn atebol i'r:** Ysgrifennydd Cyffredinol

**Cyflog:** £44,000-£47,000 pro rata

## Prif feysydd cyfrifoldeb

### A. Yn fewnol

1. Bod yn gyfrifol am faterion elusennol a statudol yr Undeb a chynnig cyngor ac arweiniad arnynt.

2. Bod yn brif gyswllt â chyfreithwyr yr Undeb a chydlynu a threfnu unrhyw gyfarfod â hwynt pan fyddo galw am hynny.

3. Cydweithredu â'r Swyddog Gweinyddol a'r cyfrifwyr ar faterion yn ymwneud â'r Comisiwn Elusen a Thŷ'r Cwmniau.

4. Llunio, diweddaru a dilysu dogfennau, ac unrhyw lenyddiaeth berthnasol i'r swydd at ddefnydd yr Undeb, yr eglwysi a'r cyfundebau.

5. Gwirio gwybodaeth ddaw o gyrff allanol fel Churches' Legistlation Advisory Service CLAS a Cytûn, er enghraifft, a'i rannu fel byddo'n briodol.

6. Sicrhau fod rheoliadau, arferion a pholisiau iechyd a diogelwch, diogelu data, cyfrifoldebau cyflogaeth, a chydraddoldeb ac amrywiaeth yr Undeb yn cwrdd â gofynion statudol.

7. Cydweithredu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol i hyrwyddo polisi y Panel Diogelu Cydenwadol yn yr eglwysi.

### B. Yn allanol

8. Datblygu perthynas gydag eglwysi ar faterion yn ymwneud â'u statws elusennol, cyfrifoldebau ymddiriedolwyr a swyddogion, a materion statudol.

9. Cynnig arweiniad i eglwysi drwy'r prosesau ymarferol o ystyried eu dyfodol, gyda golwg ar ofal tir ac eiddo, cau capeli, dirwyn achosion i ben a gwaredu eiddo.

10. Ymweld â chyfundebau i rannu gwybodaeth ac hyrwyddo polisiau ac ymarfer da ar faterion perthnasol i'r swydd.

11. Ymgymryd ag unrhyw dasgau rhesymol perthnasol i'r swydd-ddisgrifiad dan gyfeiriad yr Ysgrifennydd Cyffredinol

**Manyleb person**

- Dealltwriaeth dda o'r bywyd Cristnogol/eglwysig/crefyddol yng Nghymru, a thu hwnt, a chyda chydymdeimlad ag egwyddorion a threfn yr Annibynwyr.

- Addysg i lefel gyffredinol dda.

- Sgiliau cyfathrebu cryf yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig.

- Profiad o weithio gyda rhan-ddeiliaid ym meysydd perthnasol i'r swydd.

- Gweithiwr tîm gyda sgiliau rhyngbersonol da a'r gallu i barchu cyfrinachedd.

- Gallu i weithio'n annibynnol gan gymryd penderfyniadau lle bo'r angen.

- Sgiliau trefniadol da.

- Sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu da.

- Bod yn barod i deithio, a bod oddi cartre' â bod galw am hynny mewn perthynas â'r gwaith.

- Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant yn ymwneud â'r rôl ac i ddarparu hyfforddiant i eraill.

- Ymrwymiad i ddilyn polisïau'r Undeb ar iechyd a diogelwch a chydraddoldeb ac amrywiaeth ac arferion diogelu effeithiol.

**Telerau'r Swydd**

**Cyfnod prawf**

Bydd cyfnod prawf o 6 mis. Wrth i'r cyfnod hwnnw ddirwyn tua'i derfyn, bydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol a Chadeirydd y Pwyllgor Staffio yn cynnal gwerthusiad i asesu a thrafod perfformiad ac addasrwydd y sawl fydd wedi ei gyflogi. Ceir gwerthusiad anffurfiol ar ôl y mis cyntaf.

**Amodau gwaith:**

- Swydd rhan amser.

- Cyflog cychwynnol: £44,000-£47,000 pro rata, yn ddibynnol ar brofiad a chymwysterau.

- Telir costau teithio yn ôl yr hyn a argymhellir gan Cyllid y Wlad (45c y filltir hyd at 10,000, 25c y filltir wedyn yw'r raddfa gyfredol).

- Wythnos waith 22.5 awr. Ni thelir taliadau goramser.

- Bydd angen mynychu cyfarfodydd, gan gynnwys bod i ffwrdd dros nos o bryd i'w gilydd.

- Gwyliau: 25 diwrnod pro rata mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, a gwyliau statudol.

- Y mae gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gynllun pensiwn yn y gweithle. Bydd UAC yn cyfrannu at y cynllun hwn yn dilyn cyfnod cychwynnol o 6 mis yn y swydd.

- Os terfynir cytundeb, mis o rybudd o'r naill ochr neu'r llall.

- Parodrwydd i dderbyn gwiriad drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Disclosure and Barring Service).

- Bydd disgwyl i'r Swyddog Elusen ac Eiddo ymgyfarwyddo â chynnwys Llawlyfr Staffio'r Undeb, sydd i'w gael gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Y mae nifer o reolau pwysig perthnasol i'r swydd yn hwnnw. Ni fydd anwybodaeth honedig o gynnwys y Llawlyfr yn cael ei ystyried fel amddiffyniad dilys gan gyflogai.